



## Amcan Llesiant 5

Dechrau'n Dda/Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

### Sut y byddwn yn gwneud hyn? Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
<b>A</b>	<b>Atal Tlodi</b>	
<b>1</b>	Byddwn yn gweithredu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (0-25 oed) sydd wedi'i hailgomisiynu, gan gynnwys newidiadau mewn ymateb i ganllawiau gan Lywodraeth Cymru, a chan ddarparu gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar ar gyfer plant dan anfantais, pobl ifanc a theuluoedd ledled y sir. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 1)</i>	Mawrth 2019
<b>2</b>	Byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen <b>Dechrau'n Deg</b> , gan hyrwyddo ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd dan anfantais â phlant (0-3) sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig penodol, gan sicrhau cymorth amlasiantaeth da i deuluoedd ar draws y sbectwm anghenion trwy ddatblygu llwybrau clir gyda phartneriaid mewnol ac allanol. <b>MF5-82</b> <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 1 a 2)</i>	Mawrth 2019
<b>3</b>	Byddwn yn cyflwyno pecyn cymorth a chyngor wedi'i gynllunio i helpu tenantiaid newydd i gadw eu tenantiaethau	Mawrth 2019
<b>4</b>	Byddwn yn asesu'r opsiynau ar gyfer gwneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni i dai Cyngor <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 11)</i>	Mawrth 2019
<b>5</b>	Cyflwyno rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe i ddatblygu 'Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer' i helpu i greu cartrefi cynaliadwy a fforddiadwy a mynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith ein trigolion <b>MF5 46</b> <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 7 a 12)</i>	Mawrth 2021
<b>6</b>	Byddwn yn datblygu Strategaeth Ddigartrefedd newydd i sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael y cymorth priodol i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"><li>- Datblygu opsiynau tai ar gyfer pobl sengl</li><li>- Datblygu cynllun i sicrhau bod pobl ddigartref yn cael mynediad at wasanaethau iechyd</li><li>- Adolygu ein dull o reoli llety dros dro</li></ul> <b>MF5-50</b> <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 7)</i>	Rhagfyr 2018
<b>7</b>	Byddwn yn parhau i ymestyn ymagwedd y Tîm o Amgylch y Teulu ar draws y sir ar gyfer rhai 0-25 oed, gan egluro trothwyon i helpu i roi gwybodaeth i deuluoedd ac asiantaethau eraill i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'r cymorth iawn ar yr adeg iawn <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 1)</i>	Mawrth 2019
<b>8</b>	Byddwn yn parhau i weithio tuag at roi sylw i'r bylchau mewn gofal plant a nodwyd yn ein Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant mwyaf diweddar (2017-2022), er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswydd statudol o ran digonolrwydd gofal plant, a bod rhieni/gofalwyr lleol yn derbyn cymorth i gael hyd i gydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau gweithio a gofalu. <i>(Gweler yr <a href="#">Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant</a>). (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 1 a 2)</i>	Mawrth 2019

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
9	Byddwn yn parhau i weithio tuag at fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn ein Hasesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (2016-2019) mwyaf diweddar er mwyn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lleol fynediad i gyfleoedd a phrofiadau chwarae amrywiol, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio tiroedd ysgol, y tu allan i oriau addysgu (Gweler yr <a href="#">Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae / arolygon</a> ) (Hefyd yn Amcanion Llesiant 1 a 2)	Mawrth 2019
10	Byddwn yn cynyddu Cyfartaledd sgôr pwyntiau (9) wedi'i chapio disgyblion Blwyddyn 11 sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (Hefyd yn Amcan Llesiant 3) (4.1.2.4) (Canlyniad 2017/18 - 307.6 - Blwyddyn Academaidd 16/17)	309.5
<i>Gweler canlyniadau plant nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yn Amcan Llesiant 3</i>		
11	Byddwn yn cynyddu canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (PAM/012) (Canlyniad 2017/18 – 65.1%)	68%
<b>B</b>	<b>Helpu pobl i gael gwaith</b>	
1	Helpu holl denantiaid y Cyngor wrth i'r newidiadau Diwygio Lles gael eu gweithredu a chyflawni'r cynllun gweithredu Credyd Cynhwysol er mwyn sicrhau'r incwm mwyaf posibl a datblygu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth newydd <b>MF5-49</b> (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 7)	Mawrth 2021
2	Byddwn yn lleihau ymhellach nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). <i>Gweler Amcan 4 i gael camau gweithredu a mesurau manwl</i>	
3	Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (PAM/009) (Hefyd yn Amcan Llesiant 4) (Canlyniad 2016/17 – 1.4%)	1.3%
4	Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.2) (Hefyd yn Amcan Llesiant 4) (Canlyniad 2016/17 – 3.0%)	2.8%
5	Byddwn yn cynyddu nifer yr oedolion sy'n teimlo'n fwy cadarnhaol ac yn fwy hyderus ynghylch ceisio gwaith ar ôl cael <b>cymorth cyflogadwyedd</b> drwy Gymunedau yn Gyntaf a rhaglenni cysylltiedig. (EconD/020) (Hefyd yn Amcan Llesiant 11) (Canlyniad 2017/18 – 100%)	100%
6	Byddwn yn sicrhau bod nifer fawr o drigolion yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio cyfrifiadur ac yn ennill sgiliau TG ar ôl derbyn <b>cymorth cynhwysiant digidol</b> drwy Gymunedau yn Gyntaf a rhaglenni cysylltiedig. (EconD/021) (Hefyd yn Amcan Llesiant 11) (Canlyniad 2017/18 - 100%)	100%
7	Byddwn yn cynyddu nifer y <b>cymwysterau achrededig</b> a gyflawnir gan drigolion sy'n mynychu cyrsiau cysylltiedig â Chyflogaeth yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd rhaglenni cysylltiedig. (EconD/022) (Canlyniad 2017/18 - 327)	330
<b>C</b>	<b>Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tldi</b>	
1	Byddwn yn datblygu prosiect peilot yn ward Ty-isa i ddatblygu ffyrdd o fynd i'r afael â thlodi yn yr ardal <b>MF5-75</b>	Mawrth 2019
2	Byddwn yn gweithio gyda'r trydydd sector a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r ystod o wasanaethau cymorth a ddarperir yn y sir ar draws nifer o feysydd gwasanaeth yn ogystal â datblygu ymhellach gyfleoedd gwirfoddoli yn y sir. <b>MF5-80</b> (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 11)	Mawrth 2019
3	Byddwn yn ymestyn y model Hwb a ddatblygwyd yn Llanelli i Rydaman a Chaerfyrddin, gan wneud gwasanaethau cymorth rheng flaen yn fwy hygyrch i drigolion <b>MF5-83</b> (Hefyd yn Amcan Llesiant 6)	Mawrth 2019

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
4	Byddwn yn datblygu rhagor o drefniadau partneriaeth mewn perthynas â cham-fanteisio ariannol	Mawrth 2019
5	Byddwn yn datblygu ymhellach adnoddau gwe Synnwyr Arian er mwyn gwella incwm, datblygu cynnyrch a'i farchnata. <i>(I gynnig tystiolaeth ar effeithiolrwydd Synnwyr Arian, a fydd yn gwneud yr adnoddau'n fwy gwerthadwy i awdurdodau lleol eraill er mwyn cynhyrchu incwm.)</i> <i>(I wella hyder a gallu trigolion yn Sir Gaerfyrddin i ddelio â materion ariannol personol, a lleihau bod yn agored i dwyll ariannol.)</i> (Cam gweithredu rhif 12612) <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 9)</i>	Mawrth 2019
6	Byddwn yn hyrwyddo llythrennedd ariannol ac yn diogelu pobl agored i niwed rhag twyll ariannol drwy'r Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol. <i>(Hefyd yn Amcanion Llesiant 9 ac 11)</i>	Mawrth 2019
7	Byddwn yn cyflwyno ein Hapêl Tegan a Hamper i'r plant a'r teuluoedd hynny y dywedwyd wrthym fod angen rhywfaint o gymorth arnynt	Rhagfyr 2018
8	Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn rhoi cymorth i'r bobl sy'n hawlio budd-daliadau ar hyn o bryd ac a fydd yn symud i Gredyd Cynhwysol o fis Mawrth 2018 ymlaen. <b>MF5-94</b>	Mawrth 2019
9	Byddwn yn parhau i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael ei drin yn deg a chyda pharch, gan weithio tuag at gyflwyno Cyflog Byw Cymru i'r staff hynny ar y bandiau cyflog isaf. <b>MF5-97</b> <i>(Hefyd yn Amcanion Llesiant 15)</i>	Mawrth 2021
10	Byddwn yn cadw nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i brosesu hawliadau Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor newydd <i>(6.6.1.2)</i> <i>(Canlyniad 2017/18 – 22.77 dyddiau)</i>	21 dyddiau
11	Byddwn yn cynnal nifer cyfartalog isel y diwrnodau a gymerir i brosesu hysbysiadau ynghylch newid amgylchiadau wrth hawlio Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor <i>(6.6.1.3)</i> <i>(Canlyniad 2017/18 – 5.27 dyddiau)</i>	5.50 dyddiau
12	Byddwn yn cynnal y % uchel o hawliadau Budd-dal Tai / y Dreth Gyngor a gyfrifwyd yn ddiweddar sydd wedi cael eu cyfrifo'n gywir, ar sail gwirio sampl <i>(6.6.1.9)</i> <i>(Canlyniad 2017/18 – 96.72 %)</i>	96%
13	Byddwn yn gweithredu Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (Newyn Gwyliau), gan gefnogi teuluoedd a phlant yn ystod gwyliau ysgol i goginio prydau iach, ac anelu'n benodol at ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. <i>(Hefyd yn Amcan Llesiant 2)</i>	Medi 2018

Mesurau Llwyddiant
<b>Cyrhaeddiad Addysgol – Cyfartaledd sgôr pwyntiau (9) wedi'i chapio</b> <i>(Disgyblion Blwyddyn 11) sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (cyfeirnod i'w gadarnhau) (DLIC)</i> <i>(9 canlyniad gorau disgyblion gan gynnwys Saesneg/Cymraeg, Mathemateg–Rhifedd, Mathemateg a Gwyddoniaeth)</i>
<b>Aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag dod yn ddigartref</b> <i>(PAM/012)</i> <i>(Dangosydd Llesiant Cenedlaethol)</i>
<b>Aelwydydd lle ceir amddifadedd sylweddol</b> <i>(Dangosydd Llesiant Cenedlaethol)</i>
<b>Aelwydydd sy'n byw mewn Tlodi</b> <i>(Data 'PayCheck' CACI)</i>
<b>Oedolion sy'n gallu talu eu biliau ar amser heb unrhyw anawsterau</b> <i>(Arolwg Cenedlaethol Cymru)</i>